LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Penodi Ymddiriedolwyr

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gwneud diwylliant a threftadaeth Cymru yn hygyrch i bawb, ar gyfer dysgu, ymchwil a mwynhad.

Mae'r Llyfrgell yn awyddus i benodi Ymddiriedolwyr sydd yn;

- angerddol am dreftadaeth a diwylliant Cymru
- uchelgeisiol, arloesol ac yn feddylwyr strategol
- ymrwymo i sicrhau y gall cymunedau amrywiol Cymru fwynhau'r hyn sydd gan y Llyfrgell i'w gynnig.

Fel aelod o'r Bwrdd byddwch yn egnïol a brwdfrydig i roi arweiniad strategol i'r Llyfrgell i'w datblygu at y dyfodol, yn angerddol am weithgareddau'r Llyfrgell â dealltwriaeth o lywodraethu a chyfrifoldebau ymddiriedolwr elusen. Byddwch yn ymuno â'r Bwrdd ar adeg gyffrous iawn, gan fod y Llyfrgell ar hyn o bryd yn drafftio ei blaenoriaethau strategol ar gyfer 2025 – 2030.

Byddwch yn gyfathrebwr hyderus, yn eiriolwr dros y Llyfrgell, yn gweithio'n dda gydag eraill gan gynnig cefnogaeth a her, ac yn gyffyrddus wrth gynllunio strategol ac wrth yrru newid.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion o bob cefndir, ond byddem yn croesawu'n arbennig geisiadau gan unigolion â phrofiad mewn cadwraeth ddigidol, diogeledd seiber cyfraith elusennol/rheoli elusen, archwilio, addysg ac ymgysylltu.

Nid yw Ymddiriedolwyr yn derbyn tâl, ond byddwn yn ad-dalu costau teithio a chostau rhesymol eraill. Gwneir y penodiad mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a bydd yn seiliedig ar deilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg, agored a thryloyw ac am gyfnod o bedair blynedd o 1 Ionawr 2025.

<u>Ymrwymiad amser</u>

O leiaf 12 diwrnod y flwyddyn; mae hyn yn cynnwys mynychu chwech cyfarfod y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd yn hybrid, ac er yr anogir pawb i fod yn bresennol yn y Llyfrgell, gall Ymddiriedolwyr ymuno o bell.

<u>Sgiliau Cymraeg</u> – mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol

Mae'r Llyfrgell yn gwbl ragweithiol ynglŷn â gweithio'n ddwyieithog.

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn Gymraeg a Saesneg a gall Ymddiriedolwyr gyfrannu ym mha bynnag iaith y dymunant. Darperir holl bapurau'r Bwrdd yn ddwyieithog ac mae cyfieithu ar y pryd ar gael ymhob cyfarfod.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y cyfle cyffrous yma, medrwch gysylltu â Rhodri Llwyd Morgan, Prif Weithredwr ar 01970 632952 neu gysylltu ar ebost rhodri.llwyd.morgan@llyfrgell.cymru neu Carol Edwards, (Rheolwr Llywodraethiant) ar 01970 632923 neu ar carol.edwards@llyfrgell.cymru.

I ymgeisio am y rôl, dylech anfon CV a llythyr yn nodi sut yr ydych yn cwrdd â'r manyleb ar gyfer y rôl at Carol Edwards ar y cyfeiriad uchod. Ceir mwy o wybodaeth am y Llyfrgell, gan gynnwys ei dogfennau llywodraethu, ar ein gwefan;

https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/llywodraethiant/llywodraethiant-llgc

Y dyddiad olaf y derbynnir ceisiadau yw **16.00 o'r gloch ar 8 Tachwedd 2024.**

Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar **18 Tachwedd 2024**.

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

PENODI YMDDIRIEDOLWYR

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Dyddiad Cau: 16.00 ar 8 Tachwedd 2024

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

www.llyfrgell.cymru

Cynnwys

Cyflwyno Cais.....3

Cyfansoddiad a Rôl y Bwrdd.....4

Rôl Ymddiriedolwr.....5

Manyleb person A Meini Prawf.....5-6

Telerau Penodi..... 6

CYFLWYNO CAIS

Diolch am eich diddordeb i fod yn un o Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Fel Ymddiriedolwr, medrwch ddylanwadu ar gyfeiriad strategol y Llyfrgell a chyfrannu at ei datblygiad i'r dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys manylion y rôl, manyleb person, rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd, ac amlinelliad o'r broses ddethol.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ymgeisio neu ynghylch y Llyfrgell, cysylltwch â Rhodri Llwyd Morgan, Prif Weithredwr ar y rhif ffôn 01970 632952 neu Carol Edwards, Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc y Bwrdd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar y rhif ffôn 01970 632923 neu drwy yrru e-bost at rhodri.llwyd.morgan@llyfrgell.cymru neu carol.edwards@llyfrgell.cymru neu efallai yr hoffech fynd i wefan y Llyfrgell <https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/amdanom-ni/am-llgc>.

I wneud cais, dylech anfon CV a llythyr yn nodi sut yr ydych yn cwrdd â'r fanyleb a'r meini prawf ar gyfer y rôl at Carol Edwards ar y cyfeiriad canlynol - carol.edwards@llyfrgell.cymru <mailto:carol.edwards@llyfrgell.cymru>.

Ceir mwy o wybodaeth am y Llyfrgell, gan gynnwys ei dogfennau llywodraethu, ar ein gwefan;

Dylai'ch cais;

- Roi amlinelliad o'ch diddordeb yn y swydd
- Ddangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y fanyleb person
- Amlinellu sut y medrwch gyfrannu tuag at waith y Llyfrgell

Aelodau'r panel cyfweld fydd Llywydd y Llyfrgell, un Ymddiriedolwr, swyddog Llywodraeth Cymru ac aelod annibynnol. Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal naill ai dros Teams neu Zoom.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 16.00 ar 8 Tachwedd 2024. Ni dderbynnir ceisiadau ar ôl y dyddiad yma.

Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar 18 Tachwedd 2024.

DATGANIAD AMRYWIAETH

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae'r Llyfrgell yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am y rôl yma. Rydym yn

croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

CYFANSODDIAD A RÔL Y BWRDD

Penodir Ymddiriedolwyr i Fwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru (y Llyfrgell) yn unol â'i *Siarter Frenhinol a'r Statudau* a gwneir pob penodiad trwy ddetholiad agored.

Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnwys pymtheg Ymddiriedolwr, wyth wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru a saith gan y Llyfrgell.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cynnwys y Llywydd, Is Lywydd a'r Trysorydd, y cyfeirir atynt ar y cyd fel Swyddogion y Llyfrgell. Penodir y Llywydd a'r Is Lywydd gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â'r Ymddiriedolwyr, a'r Trysorydd gan y Llyfrgell mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.

Mae gofyn i Ymddiriedolwyr gyflawni dyletswyddau ymddiriedolwr elusen, fel y'u diffiniwyd a'u cyflwynwyd gan y Comisiwn Elusennau yn y ddogfen *Yr Ymddiriedolwr Hanfodol.*

Dylai Ymddiriedolwyr hefyd wybod am yr ymrwymiadau arnynt sy'n codi yn sgil sefyllfa'r Llyfrgell fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain wedi'u cyflwyno yn y *Ddogfen Fframwaith*, sy'n egluro'r Telerau a'r Amodau y mae'r Llyfrgell yn derbyn arian gan y Llywodraeth. Bydd fersiwn ddiwygiedig o'r *Ddogfen Fframwaith* ar gael ym mis Rhagfyr.

Mae'r *Rheoliadau* hefyd yn esbonio gwaith y Bwrdd a'i Ymddiriedolwyr ac yn amlinellu cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd.

Mae *Fframwaith Llywodraethiant y Llyfrgell* yn egluro'n fanwl swyddogaeth y Bwrdd yn ei *Gylch Gorchwyl* ac mae hefyd yn cynnwys *Cod Ymddygiad yr Ymddiriedolwyr*.

Cefnogir y Bwrdd gan y Tîm Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'i dri dirprwy. Y Tîm sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Llyfrgell yn cyflawni ei nodau ac amcanion corfforaethol ac yn gwireddu amrywiaeth llawn ei swyddogaethau a'i chyfrifoldebau yn effeithiol ac yn effeithlon.

RÔL YMDDIRIEDOLWR

Gellir crynhoi rôl a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr fel a ganlyn;

- mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd ynghyd ag unrhyw gyfarfodydd perthnasol eraill, a pharatoi'n drylwyr ar gyfer y cyfarfodydd hynny

- bod yn barod i ymaelodi â'r is-bwyllgorau; y tri phwyllgor sefydlog yw Archwilio, Risg a Sicrwydd, Cynllunio Ariannol a Pherfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant
- rhoi cefnogaeth frwd i reolwyr a staff y Llyfrgell yn eu gwaith
- cynrychioli'r Llyfrgell mewn achlysuron cyhoeddus
- hyrwyddo proffil y Llyfrgell
- defnyddio'u sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol er budd y Llyfrgell
- hwyluso'r cyswllt â rhanddeiliaid y Llyfrgell
- cyfrannu at drafodaethau wrth benderfynu ar bolisïau, strategaethau a blaenoriaethau wrth reoli casgliadau, adeiladau a gweithgareddau'r Llyfrgell
- ymddwyn ar bob adeg mewn ffordd sy'n ennyn hyder y cyhoedd ac sy'n bodloni safonau bywyd cyhoeddus yn unol ag egwyddorion Nolan.

MANYLEB PERSON

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i weithredu'n effeithiol, mae angen Ymddiriedolwyr sydd ag amrywiaeth eang o gymwyseddau, arbenigedd a phrofiad. Mae'r Llyfrgell yn chwilio am unigolion sydd yn dangos;

- dealltwriaeth, ymrwymiad a brwdfrydedd dros waith y Llyfrgell ac am sector ddiwydiannol Cymru
- ymwybyddiaeth o bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru a sut maent yn dylanwadu ar y Llyfrgell a'r sector diwylliant yn gyffredinol
- ymrwymiad i saith egwyddor bywyd cyhoeddus Nolan
- y gallu i gyfathrebu'n effeithiol â chynulleidfaoedd y Llyfrgell yn y Gymraeg a Saesneg

MEINI PRAWF HANFODOL

- dangos ymrwymiad i werthoedd a gweledigaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- dealltwriaeth o'r sector diwylliant a threftadaeth yng Nghymru
- dangos gallu i feddwl a gweithredu'n strategol, gan gynnwys dadansoddi gwybodaeth gymhleth er mwyn nodi materion allweddol a gwneud penderfyniadau effeithiol
- dealltwriaeth o gymunedau amrywiol Cymru a phrofiad o hyrwyddo amrywiaeth a chynwysoldeb
- sgiliau cyfathrebu rhagorol a phrofiad o weithio gydag eraill i wireddu amcanion
- sensitifrwydd a bod yn effro i ddirnad barn gyhoeddus ar faterion diwylliannol
- cadw at y safonau priodoldeb uchaf

a dealltwriaeth neu wybod am y rhain:

- statws yr iaith Gymraeg a'r dyhead i wneud Cymru yn genedl ddwyieithog
- rôl Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru a'u perthynas â'r Llyfrgell
- swyddogaethau a chyfrifoldebau elusen gofrestredig

PROFIAD PRIODOL O UN NEU FWY O'R CANLYNOL

- Gweithredu mewn amgylchedd busnes
- Datblygiadau a chyfleoedd digidol
- Seiberddiogelwch
- Archwilio
- Cyfraith elusennol, rheoli elusen/llywodraethu
- Addysg ac ymgysylltu

Y GYMRAEG

Nid yw'n ofynnol medru'r Gymraeg i fod yn aelod o Fwrdd y Llyfrgell, ond mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, at y lefel a nodir isod:

Deall – yn gallu deall sgyrsiau sylfaenol am bynciau bob dydd.
Darllen – yn gallu darllen deunydd syml am bynciau pob dydd a'u deall
Siarad – yn gallu cynnal sgwrs syml mewn sefyllfa waith
Ysgrifennu – dim sgiliau

Mae'r Llyfrgell yn sefydliad dwyieithog ac yn darparu ei gwasanaethau cyhoeddus ac yn cynnal ei chysylltiadau mewnol ac allanol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Iaith waith y rhan fwyaf o staff y Llyfrgell yw'r Gymraeg. Polisi prif noddwr y Llyfrgell, Llywodraeth Cymru, yw cefnogi'r iaith Gymraeg, ac mae ei strategaeth ar gyfer y Gymraeg - Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg - yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r Llyfrgell hefyd yn ddarostyngedig i Safonau'r Iaith Gymraeg.

O ystyried cymeriad ieithyddol y Llyfrgell, dylai ymgeiswyr ddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg mewn Cymru ddwyieithog gyda gwerthfawrogiad o bolisïau a strategaethau'r Llyfrgell ar gyfer yr iaith.

Mae cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob cyfarfod Bwrdd a darperir papurau yn Gymraeg a Saesneg.

TELERAU PENODI

Gwneir y penodiad mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a bydd yn seiliedig ar deilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg, agored a thryloyw ac am gyfnod o bedair blynedd o 1 Ionawr 2025.

YMRWYMIAD AMSER

Yr ymrwymiad amser ar gyfer rôl yr Ymddiriedolwr yw hyd at 12 diwrnod y flwyddyn sy'n cynnwys mynychu chwech cyfarfod Bwrdd y flwyddyn. Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus ymaelodi ag o leiaf un o is-bwyllgorau'r Bwrdd neu'r Bwrdd Cynllun Pensiwn, fydd yn ymrwymiad ychwanegol o hyd at 6 diwrnod y flwyddyn, sy'n cynnwys mynychu hyd at 4 cyfarfod pwyllgor neu'r Bwrdd Pensiwn. Yr is-bwyllgorau presennol yw Archwilio, Risg a Sicrwydd, Cyllid ac Adnoddau a Pherfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant.

CYDNABYDDIAETH

Nid yw Ymddiriedolwyr yn derbyn tâl, ond byddwn yn ad-dalu costau teithio a chostau rhesymol eraill.

Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau yn ymwneud â gofal plant/gofal am yr henoed/gofalwr cynorthwyol, tra ydych yn gwneud gwaith ar ran y Bwrdd.

CYMORTH I AELODAU SYDD AG ANABLEDDAU

Gwneir pob ymdrech i ddarparu pa bynnag gymorth rhesymol y mae Ymddiriedolwyr ei angen i'w cynorthwyo i wneud eu dyletswyddau.

PWY SY'N GYMWYS I WNEUD CAIS

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd.

Yn arbennig, rhaid i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru neu'r Llyfrgell petai'n dod yn wybyddus ar ôl eu penodi.

O dan ddarpariaethau Siarter Frenhinol 2006, nid yw'r rhai sydd wedi bod yn Ymddiriedolwr y Llyfrgell o'r blaen yn gymwys i wneud cais nes bod 4 blynedd wedi mynd heibio ers diwedd eu tymor.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi bod yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell yn swydd anghymwys ar gyfer aelodaeth o Senedd Cymru dan Orchymyn Anghymhwyso Senedd Cymru 2020.
https://www.legislation.gov.uk/uksi/2020/1255/schedule/made

GWRTHDARO BUDDIANNAU

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Ymddiriedolwr Llyfrgell Genedlaethol Cymru gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

DIWEDD